CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# BUDD-DAL TAI GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR

## GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR
## CYMORTH GYDA'R RHENT
## BUDD-DALIADAU ADDYSG
## PRYDAU YSGOL AM DDIM
## GRANTIAU GWISG YSGOL I DDISGYBLION YSGOLION UWCHRADD

Gwasanaethau Refeniw
ac Asesu Budd-dal
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

**Ffôn: 01492 576491**

*Ebrill 2016*

## Beth yw Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth y Cyngor?

Os ydych yn gorfod talu Treth y Cyngor, mae Budd-dal Treth y Cyngor yn golygu eich bod yn cael gostyngiad ar eich cyfrif Treth y Cyngor. Os rydych yn denant preifat, mae Budd-dal Tai Gostyngiad / Treth y Cyngor yn lwfans tuag at eich rhent ac yn ostyngiad oddi ar eich cyfrif Treth y Cyngor.

**Wrth gyfrifo Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth y Cyngor mae'n rhaid cynnal prawf modd, ac mae'n seiliedig ar incwm a chyfalaf yr unigolyn**.

## Beth yw Lwfans Tai Lleol?

Mae Lwfans Tai Lleol yn newid i'r Budd-dal Tai ar gyfer pobl sy'n byw mewn t ŷ rhent preifat. Nid yw'r rheolau hawliau wedi newid ac mae'n parhau i fod yn fudd-dal sy'n seiliedig ar incwm a chyfalaf yr unigolyn. Fel arfer, bydd y taliad yn cael ei roi i'r tenant, a bydd ef/hi yn ei dalu i'r landlord. Nid yw Lwfans Tai Lleol yn berthnasol i denantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac mae rhai eithriadau eraill hefyd (cysylltwch â'r Uned Fudd-daliadau i gael rhagor o fanylion).

Bydd y Lwfans Tai Lleol sy'n berthnasol i gyfrifo'r Budd-dal Tai yn dibynnu ar nifer yr unigolion yn y teulu sy'n byw yn yr eiddo. O 4 Ebrill 2011, mae uchafswm y Gyfradd Lwfans Tai Lleol sy'n cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo Budd-dal Tai yn cael ei gyfyngu i 4 ystafell wely.

Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy un ardal farchnad rentu eang - Gogledd Clwyd. Gosododd y Gwasanaeth Swyddog Rhenti, gyfraddau Lwfans Tai Lleol unigol ar gyfer nifer yr ystafelloedd gwely yn y llety.
Bydd y cyfraddau a osodwyd ym mis Ebrill, 2016 yn weithredol tan fis Mawrth, 2017. Gallwch weld y cyfraddau hyn yn rhwydd ar daflen HB (LHA) 5 yr Adain Budd-daliadau Tai. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar y fewnrwyd neu'r rhyngrwyd ar: www.conwy.gov.uk/budd-daliadau

## Nod y Lwfans Tai Lleol

Nodau sylfaenol y cynllun LTLI yw hyrwyddo:

- Tegwch: Bydd tenantiaid mewn amgylchiadau tebyg sy'n byw yn yr un ardal yn cael yr un faint o Fudd-dal Tai.
- Dewis: Bydd tenantiaid yn gallu dewis ansawdd a phris eu llety. Er enghraifft, gall tenantiaid ddewis talu mwy na'r lwfans byddant yn ei dderbyn am lety sy'n fwy na'r hyn y maent yn gymwys i'w gael.
- Eglurder: Mae'r cynllun yn ei gwneud yn hawdd gweld faint o rent allai gael ei dalu gan Fudd-dal Tai.
- Cyfrifoldeb Personol: Mae talu'r lwfans i'r tenant yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am gyllidebu a thalu'r rhent eu hunain yn hytrach na'i dalu drostynt.
- Cynyddu cymhelliant i weithio: Y gobaith yw y bydd sicrwydd am ba fudd-dal y gallai tenantiaid gael wrth iddynt weithio, eu helpu i bontio'r bwlch rhwng bod allan o waith a chymryd swydd.
- Symlrwydd: Rydym yn diddymu'r cyfyngiadau rhent cymhleth a'r angen ar gyfer cyfeirio ceisiadau unigol at swyddog rhent cyn gwneud penderfyniad. Bydd y LTLI sy'n cael ei dalu i'r tenant yn dibynnu ar nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen ar gyfer y bobl sy'n byw gyda nhw a'r ardal y maent yn dymuno byw ynddi. Bydd hyn yn cyflymu'r broses benderfynu a fydd yn fanteisiol i'r tenantiaid a'r landlordiaid.

## Pwy all hawlio?

Mae Budd-dal Tai yn fudd-dal prawf modd a gall unrhyw un wneud cais sydd angen cymorth i dalu rhent Landlord. Fodd bynnag, os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol sy'n cynnwys yr elfen Costau Tai nid ydych yn gallu hawlio Budd-dal Tai gan yr Awdurdod Lleol hefyd.

Mae Gostyngiad Treth y Cyngor yn fudd-dal prawf modd a gall unrhyw un sydd angen cymorth gyda thalu eu cyfrif Treth y Cyngor hawlio.

## Sut y gallaf hawlio budd-daliadau?

I wneud hawliad ar-lein, gallwch ddefnyddio'r ffurflen hawlio sydd ar gael ar wefan Asesu Refeniw a Budd-daliadau, www.conwy.gov.uk neu, gallwch ofyn am ffurflenni trwy ein ffonio,(mae'r rhif ffôn ar y clawr blaen). Mae'r ffurflenni hefyd ar gael yn ein swyddfeydd ardal. Llenwch ffurflen hawlio, a'i dychwelyd gyda thystiolaeth o'ch incwm (byddwn angen tystiolaeth o'ch rhent hefyd os ydych yn denant preifat). Byddwn wedyn yn cyfrifo faint o fudd-dal y mae gennych hawl iddo.

## Angen cymorth?

Os oes angen cyngor arnoch yngl ŷn â Budd- dal Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor, neu help i lenwi'r ffurflen, galwch i mewn a ddefnyddio'r gwasanaeth yn y lleoliadau canlynol.

Dydd Llun - Dydd Iau 8.45am - 5.15pm a dydd Gwener 8.45am - 4.45pm

Bodlondeb, Conwy;

Swyddfa Ardal, Neuadd y Dref, George Street (Oddi ar Lloyd Street), Llandudno

Swyddfa Ardal, Llawr Cyntaf, Llyfrgell Bae Colwyn, Ffordd Coetir Orllewinol, Bae Colwyn agored dydd LLun, dydd Mercher, dydd Iau 8.45am - 5.15pm, Dydd Mawrth 10:00am - 5.15pm a dydd Gwener 8:45am - 4:45pm

Swyddfa Ardal Plas yn Dre, Llanrwst Dydd Mawrth 10 – 1

Gall unigolion sy'n hawlio budd-dal gael cyfweliad yn Llyfrgell Bae Cinmel, Llyfrgell Abergele, Llyfrgell Cerrigydrudion a Llyfrgell Llangernyw drwy **apwyntiad yn unig** (defnyddiwch y rhif ffôn ar dudalen flaen y daflen hon i drefnu apwyntiad).

| | |
|---|---|
| Llyfrgell Abergele | dydd Gwener 10.00am tan 12.30pm |
| Llyfrgell Bae Cinmel | dydd Gwener 2.00pm tan 3.00pm |
| Llyfrgell Cerrigydrudion | dydd Gwener 3.00pm tan 5.00pm |
| Llyfrgell Llangernyw | dydd Iau 3.00pm tan 5.00pm |

## Faint o arian fyddaf yn ei gael?

***Mae swm y Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth y Cyngor y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar:***

- Y rhent rydych yn ei dalu
- Y Treth y Cyngor rydych yn ei dalu
- Maint eich teulu
- Eich incwm
- I gael cyfrifiad manylach, mae gennym 'Gyfrifiannell Budd-daliadau ar ein tudalen gwe, dim ond i chi fewngofnodi i: www.conwy.gov.uk
- Bydd y tabl amgaeedig yn rhoi syniad i chi os byddwch yn cael Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth y Cyngor. Os ydych yn ansicr, hawliwch.
- Cewch fudd-dal YCHWANEGOL os ydych chi neu'ch partner yn anabl neu dan anfantais.
- Efallai cewch ragor o Fudd-dal Tai ar gyfer ystafell wely ychwanegol os oes gennych chi neu'ch partner ofalwr sy'n aros dros nos yn eich cartref a bod gennych ystafell wely ychwanegol. Cysylltwch â'r Swyddfa Budd-daliadau i gael rhagor o fanylion.

- Os ydych yn byw yn y Sector Rhentu Cymdeithasol a'ch bod o oedran gweithio (nid ydych wedi cyrraedd yr oedran i hawlio Credyd Pensiwn), gallai'r rhent a ddefnyddir yn yr asesiad Budd-dal Tai gael ei ostwng o fis Ebrill 2013 os oes mwy o ystafelloedd gwely nag y mae eu hangen arnoch yn eich llety. 14% fydd y gostyngiad os oes gennych un ystafell wely'n ormod, a 25% fydd y gostyngiad os oes gennych ddwy neu fwy o ystafelloedd gwely'n ormod. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol i'r rheol hon. Cysylltwch â'r Uned Budd-daliadau os oes angen rhagor o fanylion arnoch.
- Byddwn yn GOSTWNG eich Budd-dal Tai os oes unigolyn nad yw'n ddibynnol arnoch yn byw efo chi (er enghraifft, mab neu ferch sy'n oedolyn, lletywr, neu berthynas). Mae cyfraddau gwahanol o ostyngiad, sy'n dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn.

## Cofiwch...

Os ydych yn ansicr, gofynnwch am ffurflen hawlio a'i hanfon atom. Y peth gwaethaf allai ddigwydd fyddai i ni ddweud, "Mae'n ddrwg gennym, ond 'does gennych chi ddim hawl i gael budd-dal".

## Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth y Cyngor - y Cyfrifydd parod

Sut i ddefnyddio'r Tabl dros y ddalen:

1. Cyfrifwch eich incwm net wythnosol (ar ôl tynnu cyfraniadau treth ac yswiriant gwladol, a 50% o'r symiau a dalwyd tuag at unrhyw gynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol).

***Yna,***

- Os ydych yn gweithio, tynnwch £5.00
- Os yw eich partner yn gweithio, tynnwch £10.00
- Os ydych yn deulu un rhiant, tynnwch £25.00
- Dylech gynnwys pob pensiwn a budd-dal, ond peidiwch â chynnwys Lwfans Byw i Bobl Anabl, Lwfans Gweini, Talaid Byw Yn Annibynnol Pensiwn Rhyfel na Phensiwn Gweddw Rhyfel.
- Os oes gennych gyfalaf o £16,000* nid fydd gennych hawl i fudd-dal (nid yw cyfalaf yn cynnwys eich cartref). Os oes gennych gyfalaf o rhwng £6,000 a £16,000, dylech gynnwys, fel incwm, £l ychwanegol yr wythnos am bob £250 cyflawn (neu ran o £250) o gyfalaf sydd gennych dros £6,000. Ni fydd cyfalaf sy'n is na £6,000 yn cael ei ystyried i bwrpas BT/BTC. I bobl o oedran Credyd Pensiwn y Wladwriaeth os oes gennych gyfalaf o £10,000 - £16,000, mae £1.00 ychwanegol yr wythnos am bob £500 (neu rhan ohono) yn cael ei drin fel incwm.

  ***Sylwch:*** yn achos partneriaid, mae'n rhaid cyfrifo ffigwr eich incwm wythnosol ar y cyd. *Os ydych yn cael credydau pensiwn gwarantedig a bod gennych gyfalaf o £16,000 neu fwy, gallech fod yn gymwys o hyd.

2. Edrychwch ar y golofn ar ochr chwith y Tabl. I ddechrau, dewch o hyd i'r ffigwr ar gyfer Treth y Cyngor / Cymhorthdal Incwm sydd agosaf at yr hyn rydych yn talu. Yna, darllenwch ar draws y colofnau nes dod at y golofn sy'n disgrifio amgylchiadau eich teulu chi. Bydd y golofn hon yn dangos yr incwm uchaf y gallwch ei ennill heb golli'r hawl i dderbyn budd-dal. Y lleiaf yw eich incwm o dan y ffigwr hwn, y mwyaf o fudd-dal fyddwch yn ei gael.

- **Dylech gofio ei bod yn bosibl na fydd budd-dal yn cael ei dalu ar eich rhent contract llawn. Effallai bod hyn oherwydd y lwfans tai lleol bresennol sy'n berthnasol i'ch cais.**

Neu eich bod yn byw yn y sector rhentu cymdeithasol a'ch bod o oedran gweithio a'ch bod yn cael eich cyfrif dan Ddeddfwriaeth budd-dal tai fel bod gennych fwy o ystafelloedd gwely nag sydd eu hangen arnoch.

## Budd-daliadau Addysg – Grantiau Gwisg Ysgol i ddisgyblion ysgolion uwchradd

Os ydych chi'n derbyn:

- Cymhorthdal Incwm*
- Lwfans Ceiswyr Gwaith yn Seiliedig ar Incwm*
- Credyd Treth Plant os ydych yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith ac nid yw eich incwm blynyddol a gafodd ei asesu gan Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi, ddim uwch nag £16,190 (2013/2014).
- Yn cael nawdd dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Elfen Gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Ad-daliad Incwm Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Taliadau Credyd Treth Gwaith Yscwanegol - Y taliad a all unigolyn ei gael am bedau wythnos ychwanegol ar ôl i'w hawl am Credyd Treth Gwaith ddod i ben

* (Bydd Disgyblion sydd â hawl eu hunain i dderbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth ac Ad-daliad Incwm Cymorth a Gwaith yn seiliedig ar incwm, hefyd yn gymwys.)

Bydd yr uchod yn cael eu prosesu'n awtomatig yr un pryd ag unrhyw gais am Ostyngiad Treth y Cyngor / Budd-dal Tai y byddwch yn ei gyflwyno.

**BUDD DAL TAI • GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR-Y CYFRIFYDD PAROD** Gweler y dudalen flaenorol am fanylion yngl ŷn â sut i ddefnyddio'r tablau hyn

| LEFELAU UCHAF INCWM AR GYFER GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR (£) | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Treth y Cyngor am y Flwyddyn | Unigolyn Sengl (dan 25) | Unigolyn Sengl (25 – oedran gweithio) | Unigolyn Sengl Oedran Credyd Pensiwn y Wladwriaeth ond o dan 65 oed | Unigolyn Sengl (dros 65) | Cwpl Oedran Credyd Pensiwn y Wladwriaeth ond o dan 65 oed | Cwpl (dros 65) | Cwpl Oedran Gweithio | Rhiant Sengl (1 plentyn) | Rhiant Sengl (2 blentyn) | Pâr ag 1 plentyn | Pâr â 2 o blant | Pâr â 3 o blant |
| 650.00 | 120.40 | 135.60 | 218.10 | 231.20 | 300.05 | 314.80 | 177.35 | 219.95 | 286.85 | 261.70 | 328.60 | 395.50 |
| 700.00 | 125.21 | 140.41 | 222.91 | 236.01 | 304.86 | 319.61 | 182.16 | 224.76 | 291.66 | 266.51 | 333.41 | 400.31 |
| 800.00 | 134.82 | 150.02 | 232.52 | 245.62 | 314.47 | 329.22 | 191.77 | 234.37 | 301.27 | 276.12 | 343.02 | 409.92 |
| 900.00 | 144.44 | 159.64 | 242.14 | 255.24 | 324.09 | 338.84 | 201.39 | 243.99 | 310.89 | 285.74 | 352.64 | 419.54 |
| 1000.00 | 154.05 | 169.25 | 251.75 | 264.85 | 333.70 | 348.45 | 211.00 | 253.60 | 320.50 | 295.35 | 362.25 | 429.15 |
| 1250.00 | 178.09 | 193.29 | 275.79 | 288.89 | 357.74 | 372.49 | 235.04 | 277.64 | 344.54 | 319.39 | 386.29 | 453.19 |
| 1500.00 | 202.13 | 217.33 | 299.83 | 312.93 | 381.78 | 396.53 | 259.08 | 301.68 | 368.58 | 343.43 | 410.33 | 477.23 |
| 2000.00 | 250.21 | 265.41 | 347.91 | 361.01 | 429.86 | 444.61 | 307.16 | 349.76 | 416.66 | 391.51 | 458.41 | 525.31 |
| 2500.00 | 298.28 | 313.48 | 395.98 | 409.08 | 477.93 | 492.68 | 355.23 | 397.83 | 464.73 | 439.58 | 506.48 | 573.38 |
| 3000.00 | 346.36 | 361.56 | 444.06 | 457.16 | 526.01 | 540.76 | 403.31 | 445.91 | 512.81 | 487.66 | 554.56 | 621.46 |

| LEFELAU UCHAF INCWM AR GYFER BUDD - DAL TAI (£) | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhent Wythnosol neu Gyfradd LTLI | Unigolyn Sengl (dan 25) | Unigolyn Sengl (25 – oedran gweithio) | Unigolyn Sengl Oedran Credyd Pensiwn y Wladwriaeth ond o dan 65 oed | Unigolyn Sengl (dros 65) | Cwpl Oedran Credyd Pensiwn y Wladwriaeth ond o dan 65 oed | Cwpl (dros 65) | Cwpl Oedran Gweithio | Rhiant Sengl (1 plentyn) | Rhiant Sengl (2 blentyn) | Pâr ag 1 plentyn | Pâr â 2 o blant | Pâr â 3 o blant |
| 55.12 | 141.93 | 157.13 | 239.63 | 252.73 | 321.58 | 336.33 | 198.88 | 241.48 | 308.38 | 283.23 | 350.13 | 417.03 |
| 65.00 | 157.13 | 172.33 | 254.83 | 267.93 | 336.78 | 351.53 | 214.08 | 256.68 | 323.58 | 298.43 | 365.33 | 432.23 |
| 70.00 | 164.82 | 180.02 | 262.52 | 275.62 | 344.47 | 359.22 | 221.77 | 264.37 | 331.27 | 306.12 | 373.02 | 439.92 |
| 75.00 | 172.52 | 187.72 | 270.22 | 283.32 | 352.17 | 366.92 | 229.47 | 272.07 | 338.97 | 313.82 | 380.72 | 447.62 |
| 80.00 | 180.21 | 195.41 | 277.91 | 291.01 | 359.86 | 374.61 | 237.16 | 279.76 | 346.66 | 321.51 | 388.41 | 455.31 |
| 85.00 | 187.90 | 203.10 | 285.60 | 298.70 | 367.55 | 382.30 | 244.85 | 287.45 | 354.35 | 329.20 | 396.10 | 463.00 |
| 90.00 | 195.59 | 210.79 | 293.29 | 306.39 | 375.24 | 389.99 | 252.54 | 295.14 | 362.04 | 336.89 | 403.79 | 470.69 |
| 95.00 | 203.28 | 218.48 | 300.98 | 314.08 | 382.93 | 397.68 | 260.23 | 302.83 | 369.73 | 344.58 | 411.48 | 478.38 |
| 103.56 | 216.45 | 231.65 | 314.15 | 327.25 | 396.10 | 410.85 | 273.40 | 316.00 | 382.90 | 357.75 | 424.65 | 491.55 |
| 123.58 | 247.25 | 262.45 | 344.95 | 358.05 | 426.90 | 441.65 | 304.20 | 346.80 | 413.70 | 388.55 | 455.45 | 522.35 |
| 150.00 | 287.90 | 303.10 | 385.60 | 398.70 | 467.55 | 482.30 | 344.85 | 387.45 | 454.35 | 429.20 | 496.10 | 563.00 |